



## Why collect tree seeds ?

We live in a time of heightened awareness of two great challenges facing our stewardship of our planet: the climate emergency and a biodiversity crisis. What can we do locally – here and now – to help?


Tree planting helps with the climate emergency by capturing carbon. Wales needs to plant 86 million trees by 2030 if we are to hit the government target for 2050. For biodiversity, the greatest gain is for tree planting to include native species such as oak, alder, birch and hawthorn - this is enhanced if these are of **local provenance** (seed collected close to planting sites). Growing such trees helps maintain genetic distinctiveness and adaptation to local conditions while maintaining a wide genetic base allows nature to adapt better to the changing climate.

In order to maximise the benefit of planting native species people need to be able to buy seedlings of known provenance – so they can choose something very local or plant a mix of trees from different areas if they wish.



### What you can do

So, a direct action to help tackle both the climate emergency and biodiversity crisis is to collect tree seeds from your local area to conserve the gene pool and to ensure it will contribute to future woodlands!



Enough for a thousand crab apple trees

Spending an afternoon collecting a few kilos of fallen acorns means you can directly help plant several thousand oak trees. Some species like birch are a bit harder to collect but half a kilo of seed equates to more than half a million trees.

Do consult best practice guidelines when deciding which species, places and trees to pick from and if you want to sell seed or seedlings there are some rules to follow. More information is available on the Dewis Gwyllt website: [dewisgwyllt.co.uk](http://dewisgwyllt.co.uk)



### What next?

For the seed you collect to become trees it needs to be grown to plantable size. There are options for this:

- Grow the seeds yourself for planting out in your own woodland or local area
- Donate seed to a non-commercial tree nursery for them to grow on for local projects
- Sell seed directly to larger scale commercial nurseries for planting over a wider area in large quantities
- Sell to a tree seed merchant to make seed available to any nursery in large quantities

All of these options are equally valid and there are pros and cons for each.

Collecting and selling local provenance native tree seed is a great win-win. It allows those creating new woodlands to choose native species from a wider/ more appropriate range of provenances, does not require extensive training or skills and can generate a useful income.

Resources, more information and contact details are available on the **Dewis Gwyllt** project website:

**[www.dewisgwyllt.co.uk](http://www.dewisgwyllt.co.uk)**



## Pam casglu hadau coed ?

Rydym yn byw mewn cyfnod lle ceir ymwybyddiaeth gref o ddwy her fawr sy'n wynebu'r ffordd y stiwardiwn ein planed: sef yr argyfwng hinsawdd a'r argyfwng bioamrywiaeth. Beth allwn ni wneud yn ein hardal - y funud yma - i helpu?

Mae plannu coed yn helpu gyda'r argyfwng hinsawdd trwy ddal carbon. Os ydym am gyrraedd targed y Ilywodraeth ar gyfer 2050, rhaid i Gymru blannu 86 miliwn o goed erbyn 2030. O ran bioamrywiaeth, bydd y brif fantais yn deillio o blannu rhywogaethau brodorol fel derw, gwern, bedw, drain gwynion ac ati, a bydd y fantais yn fwy fyth os bydd y coed hynny yn tarddu o **stoc fridorol** (sef hadau a gasglwyd yng nghyffiniau'r safleoedd plannu). Mae tyfu coed o'r fath yma yn helpu i gynnal arbenigrwydd genetig ac yn helpu i ymadasu i amodau lleol, tra mae cynnal sylfaen enetig eang yn caniatáu i natur addasú'n well i'r hinsawdd newidiol.

Er mwyn manteisio i'r eithaf o blannu coed brodorol, rhaid i bobl allu prynu eginblanhigion â tharddiad hysbys - er mwyn iddynt allu dewis rhywbeth lleol iawn neu blannu cymysgedd o goed o wahanol ardaloedd os dymunant wneud hynny.



### Beth allwch chi wneud

Felly, un cam uniongyrchol y gellir ei gymryd er mwyn ceisio mynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a bioamrywiaeth yw casglu hadau coed yn eich ardal er mwyn cynyddu'r cyfanswm genynnol a sicrhau y bydd eich coed lleol yn cyfrannu at goetiroedd y dyfodol!



Digon ar gyfer mil o goed afalau surion

Trwy dreulio prynhawn yn casglu ambell gilogram o fes oddi ar y ddaear, gallwch helpu i blannu rhai miloedd o goed derw. Mae hadau rhai rhywogaethau, fel bedw, yn anodd eu casglu, ond mae hanner cil o hadau yn cyfateb i fwy na hanner miliwn o goed.

Wrth benderfynu pa rywogaethau, lleoedd a choed i'w dewis, cofiwch ddarllen canllawiau arferion gorau; ac os dymunwch werthu hadau neu eginblanhigion, bydd yn rhaid ichi ddilyn rhai rheolau. Ceir rhagor o wybodaeth ar wefan Dewis Gwyllt: [www.dewisgwyllt.co.uk](http://www.dewisgwyllt.co.uk)



### Beth nesaf?

Er mwyn troi'r hadau a gasglwch yn goed, rhaid eu tyfu i faint sy'n addas i'w plannu. Mae yna sawl opsiwn ar gyfer hyn:

- Tyfu'r hadau eich hun ar gyfer eu plannu yn eich coetir neu eich ardal leol
- Rhoi'r hadau i feithrinfa goed anfasnachol leol fel y gellir eu tyfu ar gyfer prosiectau lleol
- Gwerthu'r hadau'n uniongyrchol i feithrinfeidd masnachol mwy fel y gellir plannu nifer ohonynt dros ardal eang
- Gwerthu'r hadau i fasnachwr hadau coed fel y bydd modd cyflenwi nifer o feithrinfeidd.

Mae'r holl opsiynau hyn yr un mor ddilys â'i gilydd ac mae yna fanteision ac anfanteision yn perthyn i bob un.

Trwy gasglu a gwerthu hadau coed sy'n tarddu o stoc fridorol, bydd pawb a phopeth ar eu hennill. Gall pobl sy'n creu coetiroedd newydd ddewis rhywogaethau brodorol o blith dewis ehangach/ mwy priodol, nid oes angen unrhyw sgiliau na hyfforddiant sylweddol, a gellir cynhyrchu incwm defnyddiol.

Mae adnoddau, rhagor o wybodaeth a manylion cyswllt i'w cael ar wefan prosiect **Dewis Gwyllt**:

[www.dewisgwyllt.co.uk](http://www.dewisgwyllt.co.uk)

